Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? Edrychwch arno yn eich porwr.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 258 (Cymru) – 4 Rhagfyr 2019

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: arsylwyr achrededig

Y dyddiad cau i ddarpar arsylwyr wneud cais i arsylwi unrhyw agwedd ar etholiad cyffredinol Seneddol y DU ar 12 Rhagfyr oedd hanner nos ddydd Llun 25 Tachwedd. Ar hyn o bryd rydym yn prosesu'r ceisiadau a gawsom, a cyhoeddir y rhestrau terfynol o arsylwyr achrededig ddydd Llun 9 Rhagfyr.

Fel y gwyddoch, gall gynrychiolwr ac arsylwyr achrededig y Comisiwn arsylwi:

- rhoi ac agor pleidleisiau post
- y bleidlais
- y dilysu a'r cyfrif

Mae ein Cod Ymarfer ar gyfer arsylwyr achrededig yn tynnu sylw y gall darparu rhybudd ymlaen llaw o ble y maent yn bwriadu arsylwi eu cynorthwyo i wneud arsylwadau mwy effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i arsylwyr etholiadol roi rhybudd ymlaen llaw o ble maent yn bwriadu arsylwi ac maent yn rhydd i ymweld yn ddirybudd.

Bydd pob arsylwr a chynrychiolydd y Comisiwn yn cario cerdyn adnabod â llun arno wedi'i gyhoeddi gan y Comisiwn. Fel y nodwyd ym Mwletin 236, gwnaethom ddiweddaru bathodynnau ID yr arsylwr etholiadol yn dilyn adolygiad o'r cynllun arsylwyr etholiadol y llynedd. Adlewyrchir y dyluniadau newydd hyn yn y llawlyfrau gorsaf bleidleisio yr ydym wedi'u darparu ar gyfer yr etholiadau.

Mae arsylwi etholiadol yn rhan ddilys a gwerthfawr o'r broses etholiadol - dylid gofalu i beidio rhwystro unrhyw arsylwi, a dylech sicrhau bod gyda chi gynlluniau yn eu lle i gefnogi arsylwyr sy'n arsylwi prosesau y mae hawl ganddynt fynychu.

Gallwch edrcyh ar gofrestrau arsylwyr a darganfod mwy am arsylwyr achrededig ar ein gwefan.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: arsylwyr achrededig

Nodyn i'ch atgoffa o hawliau arsylwyr i fynychu prosesau etholiadol allweddol.

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: adborth gweinyddiaeth etholiadol ar ôl yr etholiad

Gwybodaeth a dolen am arolwg adborth ar weinyddiaeth etholiadol yn etholiad cyffredinol Seneddol y DU.

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: nodyn atgoffa - pecynnau ar gyfer ymgeiswyr sy'n cael eu hethol i Senedd y DU

Nodyn atgoffa am becynnau gwybodaeth sydd wedi'u darparu i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gan Dy'r Cyffredin ar gyfer darpariaeth i ymgeiswyr sydd wedi'u hethol i Senedd y DU.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r *Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol*.

Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: adborth gweinyddiaeth etholiadol ar ôl yr etholiad

Hoffem glywed am eich barn a'ch profiadau o weinyddu etholiad cyffredinol Seneddol y DU.

Mae eich adborth yn bwysig i ni - bydd nid yn unig yn llywio ein hadroddiadau ar ôl yr etholiad ond bydd hefyd yn ein helpu i wella sut rydym yn eich cefnogi chi i gynnal etholiadau sy'n cael eu rhedeg yn dda yn y dyfodol. Bydd yr arolwg yn debyg i'r rhai a gyhoeddwyd ar ôl etholiadau blaenorol a bydd yn gofyn am eich barn ar wahanol agweddau ar yr arolwg gan gynnwys cofrestru pleidleiswyr, enwebiadau, diwrnod pleidleisio ei hun a'r cyfrif. Byddwn hefyd yn gofyn am eich meddyliau am y canllawiau a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Comisiwn.

Bydd dolen yr arolwg yn cael ei wneud yn fyw y diwrnod ar ôl y diwrnod pleidleisio a'r dyddiad cau ar gyfer ei gwblhau yw dydd Gwener 17 Ionawr 2020. Byddwn yn eich hatgoffa o'r ddolen i'r arolwg a'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau mewn Bwletin yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg hwn, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

.....

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: nodyn atgoffa - pecynnau ar gyfer ymgeiswyr sy'n cael eu hethol i Senedd y DU

Dylai pob Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod bellach wedi derbyn pecyn gan Dŷ'r Cyffredin sy'n cynnwys gwybodaeth hanfodol i Aelodau Seneddol.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:

- nodyn eglurhaol i'r Swyddog Canlyniadau
- amlen ar wahân sy'n cynnwys llythyr gan IPSA
- Arweinlyfr Aelodau Newydd
- llythyr gan Dŷ'r Cyffredin
- rhestr wirio HMRC

Mae'n bwysig bod y pecyn yn cael ei drosglwyddo i'r Aelodau yn syth ar ôl datgan y canlyniad.

Os nad ydych eto wedi derbyn y pecyn ar gyfer unrhyw etholaeth lle'r ydych yn Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), ebostiwch generalelection2019@parliament.uk gyda'ch cyfeiriad post ac enw'r etholaeth cyn gynted â phosibl.

Os oes gan unrhyw un o'ch ymgeiswyr anghenion hygyrchedd, cysylltwch â Swyddfa Gyfathrebu Tŷ'r Cyffredin, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod, i gael fformatau amgen.

.....

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data y DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwyd)

Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.